WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 118A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r gwaith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan dîm a oedd yn cynnwys Sara-Jane Byrne, Tim Buckle a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi mynd ati i newid gwasanaethau mewn ffordd sy'n gymesur â maint y newidiadau y mae wedi'u gwneud hyd yma, ac mae'n cryfhau ei drefniadau i baratoi ar gyfer y newidiadau mwy sylweddol y gall fod angen iddo'u gwneud i'w wasanaethau yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion i wella 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor set glir o egwyddorion a ddefnyddir i benderfynu ar newidiadau i wasanaethau sy'n ategu ei weledigaeth gyfredol, ond mae'n cydnabod bod angen adolygu ei weledigaeth strategol a'i egwyddorion 6

Mae'r Cyngor yn parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd, a gallai'r rhain ei gynorthwyo i gyflwyno newidiadau i'w wasanaethau'n effeithiol yn y dyfodol 7

Ar y cyfan, mae arfarniadau'r opsiynau'n gadarn ac yn gwella, ond mae angen mwy o gysondeb o ran ansawdd yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys 8

Mae trefniadau'r Cyngor i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses o newid gwasanaethau wedi bod yn effeithiol 9

Mae'r Cyngor yn monitro effaith newidiadau i'w wasanaethau ond nid yw'r trefniadau'n systematig nac yn dryloyw 10

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu a phenderfynu ac mae wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiadau archwilio 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae llywodraethu'n ymwneud â'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd, a ddefnyddir i gyfarwyddo ac i reoli cyrff cyhoeddus, yn ogystal â rhoi cyfrif i'w cymunedau, ymgysylltu â nhw, a, lle bo'n briodol, eu harwain.[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol i warchod arian cyhoeddus yn effeithiol ac i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon y gellir ymddiried ynddynt yn barhaus. Yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol gyfredol, y setliadau is i lywodraeth leol, a'r galw cynyddol am rai gwasanaethau, mae'n debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch ffurf a lefel y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gwella o hyd. Gwneir mân newidiadau cynyddol i'r gwasanaethau a ddarperir ar lefel reoli ac ar lefel weithredol fel rhan o'r broses benderfynu weithredol arferol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da sy'n cael ei ategu gan gynlluniau effeithiol a phrosesau cadarn yn hollbwysig wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Yn aml, mae penderfyniadau o'r fath yn ddadleuol ac yn ennyn cryn ddiddordeb yn lleol, a gallant effeithio'n sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.

3 Ers mis Ebrill 2016, mae'n ofynnol i'r cynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn datgan yr hyn a ganlyn: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol er mwyn cyflawni'r nodau llesiant.

4 Bu'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) pan fydd yn penderfynu ar newidiadau sylweddol i'w wasanaethau. Ystyr newid o'r fath yw unrhyw newid sylweddol i'r modd y caiff gwasanaeth ei ddarparu a/neu unrhyw newid sylweddol i'r profiad y mae defnyddwyr gwasanaeth allanol yn ei gael pan fyddant yn defnyddio'r gwasanaeth. Er enghraifft, gallai gynnwys newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth, neu gost y gwasanaeth.

[1] **CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007**

[2] Llywodraeth Cymru, **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5 Gan ddefnyddio fframwaith diwygiedig y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), ‘Delivering good governance in local government’, fel safon briodol, mae’r adolygiad hwn yn rhoi llinell sylfaen i’r Cyngor er mwyn iddo fynd ati i gynllunio gwelliannau pellach. Yn ystod yr asesiad a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, buom yn ystyried agweddau ar drefniadau’r broses benderfynu mewn perthynas ag amryw o gynigion i gyflwyno newidiadau sylweddol i wasanaethau. Ymhlith y newidiadau i wasanaethau y buom yn eu hystyried roedd:

- rhoi’r gorau i ddefnyddio’r ganolfan gwasanaeth cwsmeriaid symudol;
- gofal cartref y sector annibynnol – yr henoed – adolygiad o’r gwasanaeth siopa;
- parciau a chaeau chwarae – rhoi’r gorau i farcio caeau a throsglwyddo’r cyfrifoldeb i’r clybiau;
- cau pwll nofio Bedwas ar ddydd Sul;
- cau safleoedd amwynder dinesig am un diwrnod yr wythnos;
- adolygu oriau agor y llyfrgelloedd;
- adolygu darpariaeth y canolfannau dydd.

Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bob un o’r penderfyniadau i newid gwasanaeth. Yn hytrach, fe’u defnyddiwyd fel esiamplau i bwyso a mesur sut y mae’r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau.

6 Yn yr adolygiad hwn, daethpwyd i’r casgliad **fod y Cyngor wedi mynd ati i newid gwasanaethau mewn ffordd sy’n gymesur â maint y newidiadau y mae wedi’u gwneud hyd yma, a’i fod yn cryfhau ei drefniadau i baratoi ar gyfer y newidiadau mwy sylweddol y gall fod angen iddo’u gwneud i’w wasanaethau yn y dyfodol.**

# Cynigion i wella

### Arddangosyn 1: cynigion i wella

Yn y tabl isod, dangosir y meysydd i’w gwella a bennwyd drwy ein hadolygiad.

| **Cynigion i wella** | |
|---|---|
| Byddai modd cryfhau trefniadau llywodraethu’r Cyngor drwy: | |
| P1 | Cyflwyno trefniant mwy systematig a thryloyw i fonitro effaith newidiadau i wasanaethau. |
| P2 | Nodi’n gliriach mewn adroddiadau sut y cafodd adborth o ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ei ystyried wrth lunio cynigion i newid gwasanaethau. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor set glir o egwyddorion a ddefnyddir i benderfynu ar newidiadau i wasanaethau sy'n ategu ei weledigaeth gyfredol, ond mae'n cydnabod bod angen adolygu ei weledigaeth strategol a'i egwyddorion

7 Hyd yma, fel yn achos y rhan fwyaf o'r cynghorau, yr angen i wneud arbedion ariannol sydd wedi ei sbarduno i gyflwyno newidiadau i'w wasanaethau'n bennaf. Yn 2014, cytunodd y Cyngor ar set o egwyddorion a fyddai'n ategu ei gyllideb a'i gynigion i newid gwasanaethau, ac mae wedi defnyddio'r egwyddorion hyn i lywio'r newidiadau a wnaed i'w wasanaethau hyd yma. Yr egwyddorion yw:

- diogelu gwasanaethau rheng flaen lle bo modd i'r Cyngor wneud hynny;
- lleihau gwariant ar gostau rheoli a gweinyddu;
- cynyddu ffioedd a thaliadau lle bo'n briodol;
- cwtogi gwasanaethau, yn hytrach na'u diddymu, lle bo modd;
- canolbwyntio ar flaenoriaethau ac ystyried ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau.

8 Canfuwyd tystiolaeth fod y Cyngor yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith pan fydd yn penderfynu ar newidiadau i wasanaethau, yn enwedig mewn achosion lle mae'r Aelodau wedi dewis cwtogi gwasanaeth yn hytrach na'i ddiddymu. Un enghraifft yw'r penderfyniadau i leihau oriau agor y canolfannau gofal cwsmeriaid a'r safleoedd amwynder dinesig yn hytrach na chau rhai canolfannau/safleoedd yn llwyr.

9 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhanddeiliaid ar yr egwyddorion ar gyfer newid gwasanaethau drwy nifer o sianeli. Mae'r swyddogion wedi cydnabod y bydd angen gweledigaeth newydd ar y Cyngor o 2017 ymlaen ac maent wedi dechrau llunio gweledigaeth i'r Cyngor newydd ei hystyried ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017. Mae'r Cyngor yn sylweddoli na fu'n rhaid iddo wneud rhai o'r penderfyniadau cymharol sylweddol neu ddadleuol i newid gwasanaethau y bu'n rhaid i gynghorau eraill eu gwneud hyd yma. Ni fu'n rhaid i'r Cyngor gymryd camau o'r fath hyd yma oherwydd iddo ymdrin â'i gyllid yn ddarbodus yn y gorffennol. Fodd bynnag, gan fod yr hinsawdd ariannol yn anoddach erbyn hyn, mae'r Cyngor yn derbyn y bydd angen iddo gyflwyno newidiadau mwy sylweddol. Ym mis Mehefin 2016, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Gwella Busnes i fonitro hynt ei brosiectau strategol allweddol, ac mae'n ystyried cyflwyno newidiadau mwy sylweddol i'w wasanaethau mewn sawl ffrwd waith, fel ei wasanaethau hamdden a gwastraff.

## Mae’r Cyngor yn parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd, a gallai’r rhain ei gynorthwyo i gyflwyno newidiadau i’w wasanaethau’n effeithiol yn y dyfodol

10 Ar y cyfan, mae’r swyddogaethau a’r cyfrifoldebau o ran llunio newidiadau i wasanaethau a phenderfynu arnynt yn glir, ac mae’r swyddogion a’r aelodau’n eu deall. Amlinellir y swyddogaethau a’r cyfrifoldebau llywodraethu yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Fel rhan o’i raglen i wella’i drefniadau llywodraethu, bu’r Cyngor yn ymgymryd â nifer o sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i atgyfnerthu dealltwriaeth o’r swyddogaethau a’r cyfrifoldebau hyn. Mae canllawiau ynghylch y broses benderfynu ar gael ar fewnrwyd y Cyngor hefyd.

11 Ni fu’n rhaid i’r Cyngor wneud newidiadau sylweddol i’w wasanaethau hyd yma, ac ni fu’n rhaid iddo roi unrhyw drefniadau llywodraethu neu reoli rhaglen penodol ar waith i reoli ei raglen newid gwasanaethau fel y bu’n rhaid i rai cynghorau eraill ei wneud. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2016, bu i’r Cyngor sefydlu Bwrdd Gwella Busnes ac atgyfnerthu ei dîm polisi i gryfhau’r capasiti corfforaethol a’r trefniadau i gadw golwg ar ei raglenni newid gwasanaethau allweddol.

12 Mae’r Cyngor wedi atgyfnerthu rôl a statws y Swyddog Monitro a’r Swyddog Adran 151. Mae Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor yn adolygu adroddiadau drafft y Cyngor, y Cabinet a’r Pwyllgorau Craffu, gan gynnwys y rheini sy’n ymwneud â newid gwasanaethau. Mae swyddogion eraill sy’n arbenigo mewn meysydd fel cydraddoldeb a chaffael hefyd yn adolygu adroddiadau o’r fath pan fo’n briodol.

13 Mae’r Cyngor hefyd wedi ymgymryd â gwaith sylweddol gyda’r swyddogion a’r aelodau i gryfhau’r trefniadau llywodraethu’n gyffredinol ac i ddatblygu capasiti a gallu, er enghraifft o ran tryloywder ac ysgrifennu adroddiadau.

14 Mae’r Cyngor yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru). Mae templed adroddiadau a ffurflen arbedion y Cyngor bellach yn cynnwys cyfeiriadau at yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae’r uwch-swyddogion wedi cael cyflwyniadau am y Ddeddf ac mae’r Cyngor wedi paratoi canllaw i’r staff am y Ddeddf. Yn ystod ein cyfweliadau â nifer o’r aelodau a’r swyddogion, clywsom hefyd fod y Cyngor yn ceisio ymgorffori’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei drefniadau llywodraethu, a’i fod yn bwriadu diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu hyn.

## Ar y cyfan, mae arfarniadau'r opsiynau'n gadarn ac yn gwella, ond mae angen mwy o gysondeb o ran ansawdd yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys

15 Adolygwyd nifer o newidiadau i wasanaethau y bu'r Cyngor yn penderfynu arnynt yn ystod 2015-16 a 2016-17 hyd yma. Yn gyffredinol, canfuwyd bod y swyddogion yn darparu amryw o opsiynau i'r Aelodau mewn adroddiadau ffurfiol pan fyddant yn cynnig newid gwasanaeth. Canfuwyd un enghraifft lle bu i'r Cyngor ystyried un opsiwn yn unig, a hynny o ran lleihau oriau agor pwll nofio. Fodd bynnag, darparwyd sail resymegol resymol gan y Cyngor dros ystyried un opsiwn yn unig.

16 Canfuwyd nad yw'r Cyngor bob amser yn mynegi'n glir mewn adroddiadau y meini prawf a ddefnyddir i asesu'r opsiynau i newid gwasanaeth, er ein bod yn cydnabod bod y dull a ddefnyddiwyd gan y Cyngor yn gymesur â maint y newidiadau a ystyriwyd ganddo hyd yma. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi llunio templed achos busnes i'w ddefnyddio pan fydd yn newid gwasanaethau yn y dyfodol, ac mae'n ofynnol cynnwys y meini prawf allweddol a ddefnyddir i asesu'r opsiynau ynddo.

17 Yn gyffredinol, canfuwyd bod lefel yr wybodaeth a ddarperir i'r Aelodau o ran arfarniadau'r opsiynau'n briodol ac yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad o'r newidiadau i'r gwasanaeth siopa i'r henoed iddi fod yn ofynnol i'r swyddogion adolygu cywirdeb rhywfaint o'r wybodaeth a ddarparwyd mewn cyfarfod craffu, ac i hynny arwain at ostyngiad sylweddol yng ngwerth yr arbediad posibl. Yn y dyfodol, pan fydd maint y newidiadau a ystyrir gan y Cyngor yn cynyddu, bydd yn bwysig bod y Cyngor yn ei sicrhau ei hun ei fod yn darparu gwybodaeth gywir i'r Aelodau'n gyson.

18 Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd helaeth o drefniadau craffu cyn penderfynu sydd wedi ennill eu plwyf, a cheir enghreifftiau sy'n dangos bod y pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n gynnar â'r cynigion i newid gwasanaethau. Mae hyn wedi galluogi'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu i herio opsiynau a chynigion, ac i graffu arnynt. Ceir enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi ystyried opsiynau ychwanegol ar gyfer newid gwasanaethau yn sgil adborth gan y pwyllgorau craffu.

19 Mae'r camau i greu Bwrdd Gwella Busnes hefyd yn gyfle i'r Cyngor gadw golwg corfforaethol gwell ar raglenni newid gwasanaethau sylweddol, a herio cynigion ac opsiynau mwyfwy. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Gwella Busnes yn gorff cymharol newydd ac felly mae'n rhy gynnar i werthuso ei effeithiolrwydd.

# Mae trefniadau'r Cyngor i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses o newid gwasanaethau wedi bod yn effeithiol

20 Mae gan y Cyngor systemau effeithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi gwybod iddynt am newidiadau i wasanaethau. Canfuwyd bod y Cyngor yn mynd ati i roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth am ganlyniadau ymgyngoriadau, ac yn rhoi gwybod iddynt am y newidiadau sydd ar fin digwydd i'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt. Rhoddodd y Cyngor hefyd gyfle i'r cyhoedd flaenoriaethu gwasanaethau dewisol fel rhan o'r broses o bennu cyllideb 2015-16, a gofynnodd am sylwadau ar ffurf ei wasanaethau yn y dyfodol yn ystod y broses o bennu cyllideb 2016-17. Bob dwy flynedd, mae'r Cyngor hefyd yn cynnal arolwg ymhlith preswylwyr i bennu lefel y bodlonrwydd â gwasanaethau'r Cyngor.

21 Yn ystod ein cyfweliadau ar y safle, canfuwyd bod barn rhanddeiliaid yn cael ei hystyried yn ystod y broses benderfynu, er enghraifft o ran newidiadau i'r canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd nad yw'r Cyngor bob amser yn nodi'n glir mewn adroddiadau sut y mae wedi defnyddio'r adborth sydd wedi deillio o'r ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu i lywio'r cynigion neu'r penderfyniadau dilynol.

22 Rhoddir cyfle i randdeiliaid gael gwybod am fusnes arfaethedig y Cyngor ac i gymryd rhan yn broses benderfynu, yn enwedig o ran swyddogaeth graffu'r Cyngor. Ar wefan y Cyngor, ceir tudalen we o dan y teitl Cymryd rhan yn y broses graffu sy'n nodi'n glir sut y gall y cyhoedd ymgysylltu â'r pwyllgorau craffu, gan gynnwys awgrymu materion i'w trafod, mynegi barn ar eitemau, a siarad yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu. Mae blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu ar gael ar wefan y Cyngor, maent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, ac mae'n gymharol hawdd cael hyd iddynt. Maent yn rhoi manylion y materion a gaiff eu trafod, gan gynnwys pwrpas yr eitemau a'r prif faterion sy'n gysylltiedig â nhw.

23 Fodd bynnag, pan fu i ni edrych ar dudalennau gwe'r Cyngor fel rhan o'r adolygiad, canfuwyd nad oedd blaenraglen waith y Cabinet wedi'i diweddaru ar wefan y Cyngor. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn sicrhau bod blaenraglen waith y Cabinet yn hygyrch i'r cyhoedd a'i bod yn cael ei diweddaru ar y wefan er mwyn i'r cyhoedd weld pa eitemau fydd yn codi ar agendâu'r cyfarfodydd nesaf. Mae'n gymharol hawdd cael gafael ar hysbysiadau am benderfyniadau'r Cabinet ar y wefan, ac roedd yr hysbysiadau hyn yn gyfredol pan fu i ni eu hadolygu.

24 Wrth i'r Cyngor ddechrau ystyried newidiadau a allai fod yn fwy sylweddol i'w wasanaethau, bydd yn bwysig ei fod yn parhau i sicrhau bod y trefniadau i ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu â rhanddeiliaid yn dal i fod yn gymesur â maint unrhyw newid arfaethedig i wasanaeth.

## Mae'r Cyngor yn monitro effaith newidiadau i'w wasanaethau ond nid yw'r trefniadau'n systematig nac yn dryloyw

25 Nid oes gan y Cyngor broses systematig i fonitro effaith ei benderfyniadau i newid gwasanaethau ar ôl iddo wneud hynny. Canfuwyd bod swyddogion yn gyfrifol am fonitro effaith penderfyniadau i gychwyn, a'u bod yn uwchgyfeirio unrhyw broblemau neu bryderon at aelodau'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu. Canfuwyd tystiolaeth o faterion a uwchgyfeiriwyd at y pwyllgorau craffu ar ôl i bryderon gael eu mynegi. Er enghraifft, mynegodd y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd bryderon am godi tâl am finiau gwastraff newydd ac yna darparodd y swyddogion adroddiad a oedd yn amlinellu goblygiadau ailgyflwyno biniau newydd am ddim. Rydym hefyd yn gwybod bod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd yn bwriadu ystyried effaith cyflwyno goleuadau stryd LED yn sgil pryderon a godwyd gan aelodau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau a'r meini prawf i fonitro effaith penderfyniadau wedi'u nodi mewn achosion busnes nac adroddiadau sy'n ymwneud â newid gwasanaethau. Gallai'r Cyngor ffurfioli'r broses o fonitro effaith newidiadau i wasanaethau i helpu i wella tryloywder ac effeithiolrwydd y trefniadau presennol.

26 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno nifer o brosesau i sicrhau bod effaith bosibl newid i wasanaeth ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn cael ei hystyried wrth benderfynu ar newid i wasanaeth. Mae'r Cyngor yn paratoi asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb fel rhan o broses flynyddol y gyllideb. Mae hefyd wedi paratoi canllawiau sy'n nodi pryd y mae angen i swyddogion baratoi asesiadau o'r fath, gan gynnwys o ran newid gwasanaeth, cyllidebau a phrosiectau. Ceir adran am gydraddoldeb yn nhempled adroddiadau ffurfiol y Cyngor hefyd. Mae swyddog cydraddoldeb y Cyngor yn adolygu pob asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n cael ei atodi at adroddiad ac mae swyddog monitro'r Cyngor yn gwirio bod datganiadau perthnasol ynghylch cydraddoldeb yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau i sicrhau bod y Cyngor wedi ystyried yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant cydraddoldeb i'r Aelodau hefyd.

## Dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu a phenderfynu ac mae wedi ymateb yn gadarnhaol i’n hadroddiadau archwilio

27 Rydym wedi cyflawni swm sylweddol o waith o ran trefniadau llywodraethu’r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf ac mae’r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i’n canfyddiadau, ein cynigion i wella, a’n hargymhellion.

28 Mae’r Cyngor wedi parhau i adolygu ac i gryfhau ei drefniadau drwy ei Raglen Gwella Llywodraethu a’i Fwrdd Llywodraethu Corfforaethol. Mae’r Cyngor hefyd wedi datblygu ei drefniadau llywodraethu o ran newid gwasanaethau. Ymhlith y datblygiadau hyn, mae wedi cyflwyno set o egwyddorion sylfaenol y cyfeirir atynt ym mharagraff 7 uchod, sefydlu Bwrdd Gwella Busnes, a rhoi sylw i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn y templed ar gyfer adroddiadau ffurfiol. Mae gan y Cyngor raglen gwella gwaith craffu ac, fel rhan o’r rhaglen honno, mae ar fin lansio rhaglen arsylwi ar gymheiriaid gyda dau o’r cynghorau sy’n cydffinio ag ef. Mae’r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn barod i ddysgu o brofiad ac felly i gyflwyno newidiadau i’w drefniadau llywodraethu.

29 Gan fod y Cyngor yn cydnabod na fu’n rhaid iddo fynd ati hyd yma i wneud rhai o’r newidiadau sylweddol y bu’n rhaid i rai cynghorau eraill eu gwneud i’w gwasanaethau nhw, mae cyfle i’r Cyngor ddysgu o brofiad cynghorau eraill o ran cyflwyno newidiadau mwy sylweddol i wasanaethau, a’r rheini’n newidiadau a all fod yn ddadleuol. Bydd hyn yn helpu’r Cyngor i baratoi ar gyfer heriau posibl yn y dyfodol a’r tebygolrwydd y bydd angen iddo gyflwyno newidiadau mwy sylweddol i’w wasanaethau yn y tymor canol a’r tymor hir.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru